

Dyddiad cyhoeddi: 7 Hydref 2021

Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydym ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:

*"Rhowch wybod i ni beth yw llwybr arfaethedig Metro De Cymru drwy Fae Caerdydd.
Yn benodol o ran 'Uwchgynllun' Cyngor Caerdydd
[Darperir atodiadau]"*

Ar ôl adolygu eich cwestiynau, rydyn ni'n gallu darparu'r wybodaeth ganlynol:

Cynnig lefel uchel yw llwybr y Metro drwy'r ardal dan sylw y tu hwnt i Orsaf Bae Caerdydd ar hyn o bryd ac mae'n cael ei bennu gan y gwaith uwch-gynllunio gyda Chyngor Caerdydd ac ymgynghorydd dylunio trydydd parti. Rôl TrC yw integreiddio dyluniad y Metro, ac mae hefyd yn gwneud gwaith i ganfod pa mor ymarferol yw llwybr y Metro y tu ôl i'r maes parcio aml-lawr a chynllun yr orsaf yng nghyffiniau Pierhead Street. Cyngor Caerdydd sy'n gweithio ar alinio'r Metro ar hyn o bryd, ac mae cyfraniad TrC at y gwaith hwn wedi'i gyfyngu ar hyn o bryd i ystyried ymarferoldeb y Metro.

Mae'r llwybr yn mynd heibio i Adeilad Urdd Gwneuthurwyr Cymru gan ddefnyddio Rhodfa Lloyd George. Bydd unrhyw effeithiau mynediad yn cael eu hystyried ac ymgynghorir â'r rheini yr effeithir arnynt fel rhan o'r broses ddylunio a chynllunio.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir,

Trafnidiaeth Cymru

Hawliau Apelio

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y llythyr hwn. Os nad ydych chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: <https://ico.org.uk/make-a-complaint/>

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".